**I'W RYDDHAU AR UNWAITH**

**Cymdeithas Adeiladu Principality yn cyhoeddi partneriaeth ag elusen Barnardo's Cymru**

Mae Cymdeithas Adeiladu Principality wedi partneru ag un o elusennau plant mwyaf blaenllaw'r DU. Mae Barnardo's Cymru yn gweithio er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu tlodi neu ansefydlogrwydd ariannol. Mae eu gwaith yng Nghymru yn cynnwys cefnogi teuluoedd sy'n profi digartrefedd, cynorthwyo pobl ifanc sy'n pontio i annibyniaeth a'u llety eu hunain, a gweithio gyda gofalwyr ifanc, a phlant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n profi iechyd meddwl gwael.

Fel rhan o bartneriaeth gychwynnol 18 mis, bydd Principality yn cefnogi Barnardo's Cymru, gan helpu i gynnal eu gweithrediadau hanfodol fel bod plant, pobl ifanc, a theuluoedd yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

Mae'r gymdeithas eisoes wedi ymrwymo dros £80,000 mewn rhoddion i gychwyn y bartneriaeth, gan roi cefnogaeth fawr ei hangen i'r elusen i wneud gwahaniaeth sylweddol i'r rhai sy'n wynebu effeithiau tlodi neu ansefydlogrwydd ariannol, drwy ddarparu cefnogaeth ag eitemau cartref, bwyd a thanwydd. Bydd hefyd yn galluogi Barnardo's Cymru i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol gan wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant a phobl ifanc. Mae'r gefnogaeth anhygoel hon yn galluogi Barnardo's i barhau i Newid Plentyndod a Newid Bywydau ledled Cymru.

Mae cydweithwyr yn Principality hefyd wedi dechrau datblygu cyfleoedd, sy'n cael effaith sylweddol, i bobl gyfrannu mewn ffyrdd ar wahân i godi arian a rhoi arian. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys lleoedd yn Hanner Marathon Caerdydd, a rhannu tocynnau i ddigwyddiadau yn Stadiwm Principality drwy gydol y bartneriaeth – gan sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cael eu cefnogi gan Barnardo's Cymru yn cael cyfleoedd cofiadwy i fwynhau eu hunain a threulio amser gyda'i gilydd fel teulu.

Bydd y gymdeithas adeiladu yn gweithio gyda chydweithwyr yn Barnardo's Cymru er mwyn sicrhau bod tocynnau'n cael eu rhannu â phobl ym mhob cwr o Gymru.

Mae Cymdeithas Adeiladu Principality – y fwyaf yng Nghymru, a'r chweched o ran maint yn y DU – wedi cyhoeddi ymrwymiad hirdymor i'r stryd fawr a'r gymuned yn ddiweddar tan o leiaf 2030.

Wrth sôn am y bartneriaeth**, dywedodd Harri Jones, Pennaeth Dros Dro Brand, Effaith a Chyfathrebiadau**: "Rwy'n falch o gyhoeddi mai Barnardo's Cymru yw ein partner elusen newydd – achos a ddewiswyd drwy bleidlais gan ein cydweithwyr ym mhob rhan o'r busnes, sy'n dangos cymaint mae eu cenhadaeth yn ei olygu i ni.

"Mae'r gwaith y mae Barnardo's Cymru yn ei wneud er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd, gan eu helpu i ddod o hyd i lety diogel a datblygu'r sgiliau a'r hyder sydd ei angen ar gyfer dyfodol mwy disglair a diogel, yn cydweddu ag uchelgeisiau Principality i greu cymdeithas decach, lle mae gan bawb le i'w alw'n gartref.

"Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd dros y 18 mis nesaf i godi arian a chodi ymwybyddiaeth, ac i helpu i wneud rhagor o bethau'n bosibl i blant a phobl ifanc Cymru."

**Dywedodd Sarah Crawley, Cyfarwyddwr Barnardo's Cymru**: "Rydym yn hynod o gyffrous ynglŷn â'r bartneriaeth wych hon sydd wedi'i ffurfio â Chymdeithas Adeiladu Principality. Mae eu brwdfrydedd dros ein gwaith yn amlwg a does dim amheuaeth y bydd eu cefnogaeth nhw'n ein galluogi i godi rhagor o arian hanfodol ledled Cymru i gynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd i fyw bywydau hapusach, iachach, mwy diogel a mwy gobeithiol. Â dau sefydliad mor amlwg yn gweithio gyda'i gilydd, byddwn yn gallu parhau i newid plentyndod a newid bywydau yng Nghymru."

**Y DIWEDD**

**Nodiadau i Olygyddion**

- **Principality, a ffurfiwyd yn 1860, yw cymdeithas adeiladu fwyaf Cymru.**
- **Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau Cymru, â 53 o ganghennau a 14 o asiantaethau yng Nghymru a'r gororau.**
- **Dim ond pump cymdeithas adeiladu arall yn y DU sy'n fwy na Principality.**
- **Mae gan y Gymdeithas werth £14.1 biliwn o asedau**
- **Mae Principality wedi ymrwymo i barhau'n sefydliad cydfuddiannol.**
- **https://www.principality.co.uk/cy**

**Cyswllt ar gyfer y Cyfryngau**
Press@Principality.co.uk
07702 817 255

**Nodiadau i Olygyddion**

- I gael rhagor o wybodaeth, neu i drefnu cyfweliad â llefarydd ar ran Barnardo's Cymru, cysylltwch ag Arweinydd y Cyfryngau a Chyfathrebiadau, David Findlay, ar **07935 603 264**, neu david.findlay@barnardos.org.uk.
- Yn Barnardo's, mae ein pwrpas yn glir: Newid plentyndod a newid bywydau, fel bod plant, pobl ifanc, a theuluoedd yn ddiogel, yn hapus, yn iach, ac yn obeithiol. Y llynedd, fe wnaethom weithio gyda 10,000 o blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru drwy tua 50 o wasanaethau a phartneriaethau.
- Rhif cyswllt Swyddfa'r Wasg y tu allan i oriau Barnardo's yw **020 8498 7555**.